ofgem

ofgem E-Serve

Hyrwyddo dewis a gwerth
**i bob cwsmer nwy a thrydan**

# Trosolwg o Ofgem
# **Adroddiad Blynyddol 2011-12**

Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2011-12 Ofgem yw'r ddogfen hon. Gellir lawrlwytho'r ddogfen gyfan, ynghyd â'n cyfrifon adnoddau, yn **www.ofgem.gov.uk**



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 3 |
| Thema 1 | Datblygu economi carbon isel | 5 |
| Thema 2 | Helpu i gynnal sicrwydd wrth gyflenwi | 8 |
| Thema 3 | Hyrwyddo ansawdd a gwerth ar gyfer defnyddwyr | 10 |
| Thema 4 | Darparu rhaglenni'r llywodraeth yn amserol ac yn effeithlon | 14 |




# Cyflwyniad

**Ein prif ddyletswydd yw diogelu defnyddwyr. Gwnawn hyn drwy annog cystadleuaeth a rheoleiddio'r cwmnïau sy'n rheoli'r rhwydweithiau nwy a thrydan.**

**Gan edrych yn ôl dros y flwyddyn, gallwn weld bod cynnydd yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd allweddol.**

## Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu

Er bod cryn gynnydd i'w wneud o hyd, mae'r rhan fwyaf o'r prif gwmnïau cyflenwi yn ymateb yn gadarnhaol i'n pecyn i ddiwygio'r farchnad fanwerthu. Mae llawer o'r cyflenwyr bellach wedi:

- cyflwyno cynigion newydd ynglŷn â thariffau
- gwella'r ffordd y maent yn ymgysylltu â chwsmeriaid
- ymrwymo i roi mwy o wybodaeth gyfrifyddu.

Hefyd:

- rydym wedi gwella tryloywder y wybodaeth am yr elw posibl y gall y cyflenwyr ei wneud, drwy gyhoeddi'r data yn wythnosol
- arweiniodd ymchwiliad i weithgareddau marchnata gennym at ganlyniad nodedig, pan ddaethom i gytundeb y dylai arian gael ei ad-dalu i ddefnyddwyr
- mae cyfrifwyr BDO wedi cymeradwyo cyfrifon y diwydiant i raddau helaeth, gan roi hyder ychwanegol i ddefnyddwyr.

## RIIO (Refeniw= Cymhellion+Arloesedd+Allbynnau)

Mae maint y buddsoddiad yn rhwydweithiau Prydain Fawr yn enfawr. Nid yn unig mae angen adnewyddu rhannau helaeth o'r rhwydwaith, ond mae angen adeiladu rhannau newydd i'r rhwydwaith a'i ailgyflunio er mwyn rheoli ffynonellau newydd o ynni megis ynni'r gwynt, ynni tonnau ac ynni niwclear.

RIIO yw ein methodoleg newydd ar gyfer rheoli prisiau. Y nod yw sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn ymateb i anghenion eu rhanddeiliaid ac yn darparu rhwydweithiau ar gyfer sector ynni carbon isel, ac ar yr un pryd roi cyflenwad sicr a gwerth am arian i gwsmeriaid.

Mae'r model RIIO yn rhoi mwy o gyfle nag erioed o'r blaen i ddefnyddwyr fod yn rhan o'r gwaith o reoleiddio'r rhwydwaith. Er enghraifft, o dan y model rheoli prisiau hwn mae pob cwmni trawsyrru a dosbarthu nwy wedi cytuno i gynnal arolwg blynyddol o foddhad cwsmeriaid, gyda gwobrau a chosbau ariannol yn cael eu seilio ar y ffordd y maent yn perfformio.

Cymaint oedd y cynnydd a wnaed drwy ddefnyddio'r model hwn dyfarnwyd statws 'carlam' i ddau gwmni (SP Transmission a Scottish Hydro Electric Transmission) ar gyfer eu busnesau trawsyrru. Gall y cwmnïau hyn hepgor naw mis o waith biwrocrataidd a mynd yn ôl at redeg eu busnesau.

## Rhoi gwerth

- Eleni cwblhaodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ei hadolygiad ffurfiol o Ofgem. Cwblhawyd hefyd ei hadolygiad o'r dirwedd ddarparu, a oedd yn cynnwys E-Serve Ofgem. Cafodd y ddwy ochr o'n busnes eu cymeradwyo gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.
- Cynorthwywyd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd gyda'i phecyn i ddiwygio'r farchnad drydan (EMR)
- Yn Ewrop rydym wedi mynd ati i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr Prydain Fawr. Rydym wedi ymwneud cryn dipyn â'r Asiantaeth er Cydweithredu rhwng Rheoleiddwyr Ynni'r UE (ACER) yn ogystal â Chyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros Ynni a Thrafnidiaeth.

## Rhoi gwerth am arian

- Am y seithfed flwyddyn yn olynol rydym wedi sicrhau arbedion yn erbyn ein cyllideb, er gwaethaf cynnydd mawr yn ein llwyth gwaith.
- Mae hyn yn cynnwys dros £4.6 miliwn o arbedion sy'n ymwneud â gwaith rheoleiddio a ariennir drwy ffioedd trwyddedau, y byddwn yn eu had-dalu i dalwyr ffi'r drwydded.
- Rydym yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau dros yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd am 0.38 y cant o gost y rhaglen ar sail nid-er-elw (dau y cant yw meincnod mwy arferol ar gyfer cynlluniau tebyg).

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys rhagor o fanylion am ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

- **Thema 1 - Datblygu economi carbon isel**
- **Thema 2 - Helpu i gynnal sicrwydd wrth gyflenwi**
- **Thema 3 - Hyrwyddo ansawdd a gwerth ar gyfer defnyddwyr**
- **Thema 4 - Darparu rhaglenni'r llywodraeth yn amserol ac yn effeithlon**

# **Thema 1**
# Datblygu economi carbon isel

**Mae Prydain Fawr yn wynebu heriau mawr o hyd o ran cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Amcangyfrifwn y byddai angen buddsoddiadau newydd gwerth hyd at £200 biliwn er mwyn cyflawni'r targedau hyn.**

## Datblygu'r Dull o Reoli Prisiau drwy RIIO

Ein trefn newydd ar gyfer rheoli prisiau yw RIIO (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau).

Bydd dulliau o reoli prisiau ar gyfer y rhwydweithiau trawsyrru nwy a thrydan (RIIO-T1) a'r rhwydweithiau dosbarthu nwy lleol (RIIO-GD1) yn weithredol o fis Ebrill 2013 hyd at fis Mawrth 2021.

- Eleni aseswyd cynlluniau busnes manwl cwmnïau'r rhwydwaith gennym. Maent yn dangos sut y byddant yn sicrhau sector ynni mwy cynaliadwy, sut y byddant yn buddsoddi i ateb gofynion eu cwsmeriaid a'r refeniw y bydd ei angen arnynt o ganlyniad i hynny.
- Cymeradwywyd cynlluniau SP Transmission a Scottish Hydro Electric Transmission yn fras gennym a phenderfynwyd eu rhoi ar lwybr carlam.



Ym mis Chwefror, lansiwyd y dulliau o reoli prisiau ar gyfer y rhwydweithiau dosbarthu trydan (RIIO-ED1) gennym a byddant yn dechrau yn 2015.

- Un o'r prif nodau yw sicrhau eu bod yn cynnig y cymhellion cywir i gysylltu technolegau newydd megis ynni'r haul ac ynni'r gwynt ar raddfa fach â'r rhwydwaith yn gyflym ac yn effeithlon.

Rydym hefyd wedi ymestyn dulliau rheoli prisiau Adolygiad 4 o Ddulliau Rheoli Prisiau Trawsyrru (TPCR4) am flwyddyn arall, nes y bydd RIIO-T1 yn dechrau yn 2013.

## Cronfa Rhwydweithiau Carbon Isel

Dyma'r ail flwyddyn ers dechrau'r Gronfa hon, sy'n cefnogi arloesi yn y rhwydwaith. Mae'n helpu Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu i roi cynnig ar dechnolegau newydd neu drefniadau gweithredu a masnachol newydd a allai helpu i greu sector ynni carbon isel.

- Yn yr haen ariannu gyntaf mae arian ar gael i Weithredwyr ariannu prosiectau bach.

- Yn yr ail haen, mae Ofgem yn cynnal cystadleuaeth flynyddol. Eleni bydd chwe phrosiect yn rhannu £57 miliwn o arian.

## Trawsyrru Trydan: cysylltiadau a chodi tâl

Dros y degawd nesaf bydd angen i'r DU gysylltu cryn dipyn o fannau cynhyrchu newydd â'r rhwydwaith trydan.

Eleni gwnaed cynnydd da ar Brosiect TransmiT: ein hadolygiad annibynnol ac agored sy'n ystyried a ellid gwella taliadau a godir am drawsyrru trydan a threfniadau cysylltu.

- Lansiwyd Adolygiad Cod Sylweddol gennym i asesu nifer o newidiadau posibl i'r fformiwla ar gyfer pennu taliadau trawsyrru.

- Rydym yn ffafrio cadw taliadau ar sail lleoliad (lle mae cynhyrchwyr ynni yn talu mwy yn dibynnu ar y pellter rhyngddynt hwy a'r galw, er mwyn adlewyrchu'r costau uwch y maent yn eu creu i'r system). Ond byddem yn gwella'r fformiwla i ystyried y gwahanol fathau o gynhyrchwyr ynni a pha mor aml y maent yn defnyddio'r rhwydwaith. Bydd hyn o gymorth i lawer o gynhyrchwyr ynni carbon isel.

- Gofynnwyd hefyd i'r diwydiant ddatblygu cynigion i fynd i'r afael â'r materion amrywiol a wynebir gan gynhyrchwyr ynni wrth gysylltu â'r rhwydweithiau. Cyhoeddwyd ein penderfyniad ym mis Mawrth.



## Hyrwyddo marchnadoedd ynni doethach

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd sy'n arwain rhaglen y llywodraeth i osod mesuryddion deallus mewn cartrefi yn y DU dros y degawd nesaf. Ein rôl ni yw cefnogi a chynghori'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wrth iddi greu'r rheolau a'r rheoliadau angenrheidiol ac yna eu gorfodi unwaith eu bod ar waith.

- Bydd mesuryddion deallus yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i e i reoli'r ynni a ddefnyddir ganddynt, a helpu cyflenwyr i greu gwasanaethau newydd i dorri biliau cwsmeriaid.
- Gallent hefyd helpu'r diwydiant i greu marchnadoedd ynni mwy effeithlon, a braenaru'r tir ar gyfer gridiau deallus. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein hawgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwneud hyn ac rydym wrthi'n datblygu argymhellion manylach. Maent yn cynnwys sut mae angen i ni newid trefniadau'r farchnad er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn elwa ac yn cael eu diogelu.
- Wrth i fesuryddion deallus gael eu cyflwyno mae angen hefyd i ni reoli'r broses o adnewyddu mesuryddion traddodiadol. Eleni cwblhawyd ein hadolygiad o drefniadau'r farchnad ar gyfer mesuryddion traddodiadol. Ymgynghorwyd hefyd ynglŷn â sut y gellir sicrhau bod y broses hon yn mynd rhagddi'n effeithlon. Byddwn yn gwneud ein hargymhellion yn ddiweddarach yn 2012.
- Ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd sefydlwyd y Fforwm Gridiau Deallus. Bydd y grŵp rhanddeiliaid hwn yn arwain trafodaethau am y rôl y gall gridiau deallus ei chwarae mewn dyfodol carbon isel a helpu i lunio polisi.

# Thema 2
# Helpu i gynnal sicrwydd wrth gyflenwi

**Mae Prydain yn dibynnu'n fwyfwy ar nwy a fewnforir, felly rydym yn fwy agored i newidiadau ym marchnadoedd ynni'r byd. Hefyd, mae rheoliadau newydd yr UE yn newid y modd y mae marchnadoedd ynni yn gweithio.**

## Gweithredu Trydydd Pecyn Ynni'r UE

Rydym wedi ymwneud yn helaeth â'r gwaith o weithredu trydydd pecyn yr UE o ddiwygiadau ynni, a ddaeth yn gyfraith gwlad yn y DU ym mis Tachwedd o dan arweiniad yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

- Mae ein cadeirydd, yr Arglwydd Mogg, yn cadeirio Bwrdd Ewropeaidd y Rheoleiddwyr (ACER).
- Ymgynghorwyd ynglŷn â fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer buddsoddi mewn rhyng-gysylltyddion trydan. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar brosiect NEMO, sef y rhyng-gysylltydd a gynigir rhwng Prydain Fawr a Gwlad Belg, fel astudiaeth achos.
- Cymeradwywyd rheolau mynediad o ran Britned, y rhyng-gysylltydd â'r Iseldiroedd, sy'n 'paru' marchnad Prydain â marchnad yr Iseldiroedd am y tro cyntaf.
- Cyflwynwyd ein sylwadau cynnar i'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â sicrhau bod systemau trawsyrru ym Mhrydain Fawr yn cydymffurfio â gofynion dadfwndelu'r Trydydd Pecyn.
- Ym mis Mawrth ceisiwyd barn ar yr hyn y mae'r cynlluniau ar gyfer integreiddio marchnadoedd trydan yn ei olygu i farchnad ynni Prydain Fawr, ac ar gynllunio ar gyfer system trawsyrru trydan integredig o fewn un farchnad Ewropeaidd.

## Sicrhau'r cyflenwad nwy

Ar ddechrau 2011 dechreuwyd ar Adolygiad Cod Sylweddol gennym o sicrwydd y cyflenwad nwy ym Mhrydain Fawr.

- Ym mis Tachwedd awgrymodd ein penderfyniad a'n hasesiad o effaith drafft y dylid gwneud newidiadau sylweddol i'r trefniadau brys nwy.
- Roedd yn cynnwys taliadau arfaethedig i gwsmeriaid sydd â chontractau cyflenwadau na ellir eu torri, os bydd cyflenwyr yn methu ag ateb galw'r cwsmer.

Ym mis Tachwedd, gofynnodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i ni ystyried a oes angen i ni gymryd camau pellach i sicrhau bod cyflenwadau i ddefnyddwyr yn y tymor canolig a'r hirdymor yn parhau'n sicr. Rydym wrthi'n asesu'r risgiau i sicrwydd cyflenwad nwy.

## Sicrhau'r cyflenwad trydan

O fis Medi 2012 mae'n rhaid i ni roi asesiad blynyddol o wahanol lwfansau'r gallu i gynhyrchu trydan i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac unrhyw risgiau i sicrwydd y cyflenwad. Rydym wedi gofyn i'r Grid Cenedlaethol ddatblygu'r model sydd ei angen arnom i wneud hyn.

Eleni, yn dilyn ymgynghoriad, penderfynwyd hefyd y byddem yn lansio Adolygiad Cod Sylweddol o'r taliadau a wynebir gan y rhai yn y farchnad sy'n defnyddio neu'n cynhyrchu mwy neu lai o ynni nag a bennwyd yn eu contractau.

- Gelwir y rhain yn 'drefniadau tynnu arian trydan' ac, yn ein barn ni, maent yn cynnig cymhelliad sylweddol i gyflenwyr a chynhyrchwyr trydan ateb galw cwsmeriaid, er mwyn helpu i gynnal sicrwydd cyflenwadau trydan.
- Ar y cyd â rhanddeiliaid byddwn yn mynd ati i benderfynu pa mor fanwl fydd yr adolygiad hwn.



Thema 3
# Hyrwyddo ansawdd a gwerth ar gyfer defnyddwyr

**Ein prif ddyletswydd yw diogelu defnyddwyr. Eleni, ymhlith ein mentrau pwysig roedd ein Hadolygiad o'r Farchnad Fanwerthu, gweithio gyda rhanddeiliaid, defnyddio ymchwil defnyddwyr i lunio polisïau Ofgem, cymryd camau gorfodi lle y bo angen a diogelu defnyddwyr sy'n agored i niwed.**

## Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, cyhoeddwyd ein cynigion wedi'u diweddaru o dan yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu, yn barod ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r cynigion hyn yn dilyn ein canfyddiadau cychwynnol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth a mis Mehefin 2011. Yn y cyfamser cafodd cryn dipyn o waith ymchwil defnyddwyr ei gynnal a'i gyhoeddi gennym i sicrhau y bydd ein newidiadau arfaethedig mor effeithiol â phosibl.

- Mae ein cynigion yn disgrifio'n fanwl y newidiadau sydd eu hangen yn ein barn ni i sicrhau mwy o ymgysylltu â defnyddwyr a chystadleuaeth fwy effeithiol yn y farchnad ynni fanwerthu.
- Maent yn cynnwys newidiadau yn y sector domestig a'r sector annomestig o'r farchnad.
- Byddant yn newid fframwaith rheoleiddio'r diwydiant yn sylweddol a'u nod yw sicrhau bod y farchnad yn fwy cystadleuol, yn gliriach ac yn symlach i ddefnyddwyr.

Ym mis Chwefror cyhoeddwyd hefyd gynigion manwl i sicrhau ei bod yn haws ymuno â'r farchnad ynni gyfanwerthu ac i gryfhau cystadleuaeth. Mae hyn yn cynnwys cynnig i sicrhau bod y Chwech Mawr yn gwerthu hyd at 25 y cant o'r ynni a gynhyrchir ganddynt drwy arwerthiant agored a thryloyw.

Dechreuwyd hefyd gyhoeddi adroddiad o wythnos i wythnos gennym ar brisiau ynni manwerthu a chyfanwerthu. Mae'n gam yn nes at sicrhau bod y farchnad ynni yn fwy tryloyw i ddefnyddwyr a'r rhai sy'n rhan o'r farchnad.



## Gorfodi

Eleni parhawyd i wneud safiad cadarn o ran gorfodi.

- Ym mis Mawrth 2012 cyhoeddwyd i ni benderfynu bod EDF wedi torri amodau marchnata ei drwydded. Cytunwyd ar fesurau gwerth £4.5 miliwn i helpu defnyddwyr sy'n agored i niwed ar y cyd ag EDF. Golyga hyn y bydd defnyddwyr yn elwa'n uniongyrchol o ganlyniad i'n hymchwiliad.
- Rhoddwyd dirwy o £2 filiwn i RWE npower a £2.5 miliwn i Nwy Prydain ym mis Gorffennaf, yn dilyn ein hymchwiliadau i'r ffordd roeddent yn ymdrin â chwynion.
- Rhoddwyd dirwy o £900,000 i Northern Gas a £4.3 miliwn i National Grid am beidio â chyrraedd safonau o ran pa mor gyflym a pha mor gyson maent yn ymateb pan roddir gwybod iddynt am achosion o nwy yn gollwng.
- Rhoddwyd dirwy o £1 filiwn i Nwy Prydain am gam-ddatgan ffigurau ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy.

Ymgynghorwyd hefyd ynglŷn â newidiadau i'n canllawiau gorfodi a dechreuwyd ar adolygiad llawn o'n polisi gorfodi, a fydd yn gorffen yn 2013.

## Lleihau dyled ac achosion o ddatgysylltu, tariffau cymdeithasol a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Yn ein barn ni, mae angen i gyflenwyr fod yn ymatebol i gwsmeriaid pan fyddant yn adennill dyledion, a dim ond pan fetho popeth arall y dylid datgysylltu cyflenwad. Eleni parhawyd i gyfarfod yn rheolaidd â'r cyflenwyr mawr i dynnu sylw at feysydd sy'n achosi pryder a hyrwyddo arfer gorau.

- Mae nifer yr achosion o ddatgysylltu wedi lleihau i tua 1,300 yn 2011 o gymharu â mwy nag 8,000 yn 2007.
- Yn ystod y flwyddyn arweiniodd ein hymchwiliad i gydymffurfiaeth Nwy Prydain â rhwymedigaethau ei drwydded ynglŷn â thalu dyledion at gael eglurhad pwysig i bob cyflenwr ynni ynglŷn â sut y dylent ystyried amgylchiadau unigol cwsmeriaid wrth bennu cyfraddau ad-dalu.
- Bydd yr eglurhad hwn ynglŷn â'r safon uchel sydd ei hangen yn llywio'r ffordd y bydd Ofgem yn dehongli'r rhwymedigaethau hyn mewn trwyddedau i ddiogelu cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn y dyfodol.
- Aethom ati ar y cyd â chyflenwyr i leihau'r bwlch rhwng yr ad-daliadau wythnosol o ddyled y maent yn gofyn i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu eu talu a'r symiau y maent yn gofyn i gwsmeriaid credyd eu talu.

Yn 2008 cytunodd y Chwech Mawr i gynyddu eu gwariant cyfunol ar raglenni cymdeithasol i o leiaf £150 miliwn y flwyddyn erbyn 2011. Yn y flwyddyn olaf o'r ymrwymiad gwariwyd £178.7 miliwn - bron £29 miliwn yn uwch na'r targed.

Mae E-Serve Ofgem yn gweinyddu rhan o'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae hyn yn disodli'r ymrwymiad gwirfoddol i'r rhaglenni a'r tariffau cymdeithasol a bydd yn weithredol tan 2015.

## Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd ynni

Mae ein rhaglen o ymgysylltu â defnyddwyr, Defnyddwyr yn Gyntaf, yn ein helpu i ddeall yn well sut mae defnyddwyr yn ymddwyn, a'u profiadau a'r hyn sy'n achosi pryder iddynt.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn comisiynu ein hymchwil ein hunain, yn cynnal panel Defnyddwyr yn Gyntaf yn rheolaidd, ac yn ystyried data allanol. Eleni aethom ati i weithio gyda thimau o bob rhan o Ofgem i sicrhau bod y gwaith ymchwil hwn wedi llywio ein polisïau a'n mentrau.

Rhoddwyd ar waith nifer o fesurau fel rhan o 'Becyn y Gwanwyn'. Ymhlith y rhain roedd camau diogelu newydd i gwsmeriaid sy'n cael mesuryddion deallus cynnar.

- Amlinellwyd ein hymrwymiad i orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â diogelu defnyddwyr ym maes preifatrwydd data deallus.
- Ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, grwpiau'r diwydiant a grwpiau defnyddwyr aethom ati i ddatblygu'r Cod Ymarfer ar Osod Mesuryddion Deallus.

Nodwyd hefyd ein cynigion terfynol ar gyfer rhwymedigaethau gorfodadwy mewn trwyddedau ar gyflenwyr nwy i ganfod ac atal achosion o ddwyn.

Cydfenter â'r Swyddfa Cyngor ar Bopeth yw Ynni - y Fargen Orau, a lansiwyd yn 2008 i roi cyngor diduedd i ddefnyddwyr ynglŷn â rheoli costau ynni. Rhaglen i Brydain Fawr gyfan ydyw ac mae'n ymestyn ymhellach yn ei phedwaredd flwyddyn.

Eleni lansiwyd Ynni - y Fargen Orau ar-lein gyda chyfres o ffilmiau fideo i ddefnyddwyr, gan gynnwys fersiwn Cymraeg.

## Sylwadau defnyddwyr yn llunio polisi ym mhob rhan o Ofgem

Rydym yn comisiynu ein hymchwil ein hunain ymhlith defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys arolygon ar raddfa fawr, ond hefyd ein panel Defnyddwyr yn Gyntaf, sy'n cyfarfod yn rheolaidd (sy'n cynnwys 100 o bobl o chwe lleoliad sy'n cynrychioli defnyddwyr Prydain Fawr yn fras). Hefyd rydym yn ystyried amrywiaeth o ddata allanol.

Eleni sicrhawyd unwaith eto bod y gwaith ymchwil hwn yn llywio ein holl waith polisi.

Er enghraifft:

- datblygwyd model segmentu defnyddwyr, a fu'n ddefnyddiol iawn wrth ystyried sut y gallai cynigion yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu gael yr effaith fwyaf buddiol ar gynifer o bobl â phosibl
- mae ein hymchwil i'r ffordd y gallai defnyddwyr ymateb i well gwybodaeth am y farchnad wedi helpu i lywio ein cynigion o dan yr Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu er mwyn sicrhau bod tariffau yn fwy amlwg i ddefnyddwyr ac yn haws eu cymharu
- dengys ein gwaith ymchwil diweddaraf i foddhad cwsmeriaid gyda'r ffordd y mae cyflenwyr yn ymdrin â chwynion, er gwaethaf y gwelliannau ers yr adolygiad diwethaf, fod angen o hyd i gyflenwyr wneud rhagor o gynnydd.

# Thema 4
# Darparu rhaglenni'r llywodraeth yn amserol ac yn effeithlon

**Drwy ein cangen gyflawni, E-Serve Ofgem, rydym yn gweithredu ac yn cynnal rhaglenni rheoleiddio ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Rydym hefyd yn datblygu ac yn gweinyddu cynlluniau amgylcheddol y llywodraeth ar sail nid-er-elw.**

## Ynni'r gwynt ar y môr

Disgwylir i ynni'r gwynt ar y môr chwarae rhan bwysig yn ymdrechion Prydain i leihau allyriadau carbon. Rydym yn cynnal trefn trawsyrru ar y môr ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

- Cynhaliwyd proses tendro cystadleuol lwyddiannus gennym ar gyfer trwyddedau i dri Pherchennog Trawsyrru ar y Môr (OFTOs) arall ddod yn berchen ar gysylltiadau trawsyrru foltedd uchel â ffermydd ynni'r gwynt ar y môr yn y DU a'u gweithredu.
- Mae'r trwyddedau hyn yn rhan o gylch cyntaf o dendrau, sy'n cynnwys cysylltiadau trawsyrru ar y môr gwerth £1.1 biliwn â naw fferm wynt.
- Bydd y broses dendro yn sicrhau costau is i ddefnyddwyr, yn creu seilwaith newydd hollbwysig ac yn rhoi cyfle i eraill ymuno â'r farchnad.
- Lansiwyd y prosiect Cynllunio a Rheoleiddio Trawsyrru Integredig (ITPR). Ei nod yw adolygu proses cynllunio system y DU, a nodi'r hyn y mae angen i'r Gweithredwr System Trawsyrru Trydan Genedlaethol (NETSO) ei wneud.

## Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI)

Ym mis Tachwedd lansiwyd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI), sef y cynllun cyntaf o'i fath yn y byd. Mae'n rhoi arian i helpu busnesau i newid o systemau gwresogi olew a nwy i systemau cynaliadwy.

Aethom ati i lunio canllawiau, sefydlu llinell gymorth i ateb eu hymholiadau ynglŷn â sut i gymryd rhan, a chynllunio a chreu system TG ddiogel.



## Tariffau Cyflenwi Trydan

Dyma ail flwyddyn y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan. Ei nod yw annog mwy o bobl i ddefnyddio technolegau adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach. Mae cyflenwyr trydan trwyddedig yn talu tariffau i gynhyrchwyr am unrhyw drydan y maent yn ei gynhyrchu a'i allforio.

- Rydym yn cynnal cofrestr ganolog o Dariffau Cyflenwi Trydan (cronfa ddata o bob gosodiad cofrestredig), yn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â rheoliadau, ac yn achredu rhai gorsafoedd cynhyrchu.
- Ar ddiwedd yr ail flwyddyn, roedd tua 248,000 o osodiadau cofrestredig, o gymharu â 30,000 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

## Gweinyddwyd hefyd y canlynol

- **Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes**
- **Y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT)**
- **Y Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned (CESP)**

Yn fwy diweddar, mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi gofyn i ni weithio'n agosach ar y rhaglen ECO (Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni) newydd sy'n dechrau yn 2012.

**Ofgem London**

9 Millbank
London SW1P 3GE
Ffôn: 020 7901 7000

**Ofgem Scotland**

Cornerstone
107 West Regent Street
Glasgow G2 2BA
Ffôn: 0141 331 2678

**Ofgem Cymru**

1 Pentir Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ
Ffôn: 029 2044 4042

**www.ofgem.gov.uk**